# Cymraeg mewn Ymarfer Proffesiynol 2
# 2025-26

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

## BA2: Darlith 11
## Dydd Iau 13eg o Dachwedd 2025

Peniarth .cymru
RHAGOR iaith
CANOLFAN GWASANAETHAU CYMRAEG
WELSH LANGUAGE SERVICES CENTRE

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

# Nod ac Amcanion

*Aims and Objectives*



- **Adolygu'r Amser**
  *Revising the 'Time'*

- **Dysgu 'Wedi / Wedi bod'**
  *Learning 'Wedi' (have / has) 'Wedi bod' (have / has been)*

# Adolygu

| | |
|---|---|
| **Rhestrwch…**<br>*List…* | 10 hobi |
| **Cywirwch…**<br>*Correct*… | Faint o'r gloch ydy e?<br>Mae hi'n dau o'r gloch. |
| **Cyfieithwch…**<br>*Translate…* | It is quarter past four.<br>What time will it be? |
| **Gorffennwch…**<br>*Finish…* | Mae hi'n ……. wedi ……<br>Roedd hi'n …… i ……. |
| **Newidwch…**<br>*Change…* | Pryd mae Aled yn mynd i'r ysgol fel arfer? |

# Faint o'r gloch ydy hi?



# Faint o'r gloch **oedd** hi?





# Faint o'r gloch **fydd** hi?



# Beth ydy'r dyddiad heddiw?

Dydd Sul
Dydd Llun
Dydd Mawrth
Dydd Mercher
Dydd Iau
Dydd Gwener
Dydd Sadwrn

Ionawr
Chwefror
Mawrth
Ebrill
Mai
Mehefin
Gorffennaf
Awst
Medi
Hydref
Tachwedd
Rhagfyr

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1af** y cyntaf | **2il** yr ail | **3ydd** y trydydd | **4ydd** y pedwerydd | **5ed** y pumed | **6ed** y chweched | **7fed** y seithfed |
| **8fed** yr wythfed | **9fed** y nawfed | **10fed** y degfed | **11eg** yr unfed ar ddeg | **12fed** y deuddegfed | **13eg** y trydydd ar ddeg | **14eg** y pedwerydd ar ddeg |
| **15fed** y pymthegfed | **16eg** yr unfed ar bymtheg | **17eg** yr ail ar bymtheg | **18fed** y deunawfed | **19eg** y pedwerydd ar bymtheg | **20fed** yr ugeinfed | **21ain** yr unfed ar hugain |
| **22ain** yr ail ar hugain | **23ain** y trydydd ar hugain | **24ain** y pedwerydd ar hugain | **25ain** y pumed ar hugain | **26ain** y chweched ar hugain | **27ain** y seithfed ar hugain | **28ain** yr wythfed ar hugain |
| **29ain** y nawfed ar hugain | **30ain** y degfed ar hugain | **31ain** yr unfed ar ddeg ar hugain | | | | |

**Dydd Mawrth, Hydref y nawfed.**

# Mae hi'n amser cofrestru!

1. Greeting!
2. Feelings
3. It's Registration Time!
4. Discuss the date
5. Discuss the weather
6. Discuss the time
7. Praise!

# Wedi / Wedi Bod



# Present Tense + wedi

This is the perfect tense. You can think of '**wedi**' as meaning *'have'* or *'has'* here. The present tense patterns are used but '**wedi**' is substitued for '**yn**', e.g.

**Dw i'n bwyta cinio.** > *I **am** eating dinner.*
**Dw i wedi bwyta cinio.** > *I **have** eaten dinner.*

* '**Wedi**' and '**yn**' NEVER appear next to each other.

# Wedi

**Cofiwch!** Remember to always place **'wedi'** in front of the verb:

**Dw i wedi mynd.** *I **have gone**.*

**Ydy hi wedi mynd?** *Has she gone?*

**Dydyn nhw ddim wedi mynd.** *They haven't gone.*

# Dweud beth mae pobl wedi wneud

Beth wyt ti wedi wneud yn yr ysgol heddiw?

Dw i wedi gwneud castell tywod.
Dw i wedi ysgrifennu stori.

Beth mae'r plant wedi wneud?

Maen nhw wedi torri'r cyfrifiadur.
Mae John wedi bwyta afal Siwan.
Mae Blwyddyn 1 wedi gwneud cacen.

# Y Negyddol

| | | |
|---|---|---|
| Dw i | **dd**im wedi | gorffen y gwaith. |
| Dwyt ti | | golchi'r brwshys. |
| Dydy e | | gadael yn gynnar. |
| Dydy hi | | yfed y llaeth. |
| Dydy Gareth | | taflu'r bêl. |
| Dydyn ni | | tacluso'r dosbarth. |
| Dydych chi | | siarad â'r Pennaeth. |
| Dydyn nhw | | bwyta'r ffrwyth. |

# Gofyn cwestiynau

Wyt ti wedi blino?
gorffen y llyfr?
gwneud y gwaith?
golchi dwylo?
brwsio dannedd?
tacluso?

Ydw

Nac ydw

e.e. Ydw, dw i wedi gorffen y llyfr.

# Gofyn cwestiynau

Ydych chi wedi blino?
gorffen y llyfr?
gwneud y gwaith?

**Ydyn**

**Nac ydyn**

e.e. Nac ydyn, dydyn ni ddim wedi gwneud y gwaith.

# Gofyn cwestiynau

| | |
|---|---|
| Ydy e wedi | golchi dwylo? |
| Ydy hi wedi | brwsio dannedd? |
| Ydy Dafydd wedi | tacluso? |

**Ydy**

**Nac ydy**

e.e. Ydy, mae e wedi golchi dwylo.

# Atebwch y cwestiynau'n llawn:
*Answer the questions in full:*



1. Wyt ti wedi darllen y llyfr? ✓
2. Ydy Cerys wedi gwneud y gwaith? ✗
3. Ydych chi wedi tacluso'r dosbarth? ✓
4. Ydy e wedi gweld y Pennaeth? ✓
5. Wyt ti wedi dysgu Cymraeg? ✗

# Atebion!



1. Ydw, dw i wedi darllen y llyfr.
2. Nac ydy, dydy Cerys ddim wedi gwneud y gwaith.
3. Ydyn, rydyn ni wedi tacluso'r dosbarth.
4. Ydy, mae e wedi gweld y Pennaeth.
5. Nac ydw, dw i ddim wedi dysgu Cymraeg.

# Oes rhywun wedi ...?

*Has someone ...?*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Oes rhywun | wedi | gweld y llyfr? | *Has someone seen the book?* |
| | | golchi'r brwshys? | *washed the brushes?* |
| | | gwneud llanast? | *made a mess?* |
| | | torri'r trên? | *broken the train?* |

Oes ✓ Nac oes ✗

# Sgwrs yn yr ysgol



| | |
|---|---|
| Athro: | Oes rhywun wedi gweld bag Ben? |
| Sam: | Dydw i **ddim** wedi gweld y bag, Miss. |
| Lois: | Na fi, Miss. |
| Twm: | Mae bag du yn yr ystafell **g**otiau, Miss. |
| Athro: | Wyt ti wedi edrych yn yr ystafell **g**otiau Ben? |
| Ben: | Nac ydw, Miss. |
| Athro: | Wel cer i edrych yno nawr! |
| Ben: | O'r gorau, Miss. |

***Gweithiwch mewn parau i baratoi sgwrs newydd.**

# Sgwrs yn y bore



| | |
|---|---|
| Mam: | Gareth, wyt ti wedi codi eto? |
| Gareth: | Ydw, Mam. |
| Mam: | Wyt ti wedi ymolchi? |
| Gareth: | Ydw, wrth gwrs. |
| Mam: | Wyt ti wedi brwsio'r gwallt yna?! |
| Gareth: | Nac ydw, dim eto... |
| Mam: | Beth am y dannedd? Wyt ti wedi brwsio'r dannedd? |
| Gareth: | Nac ydw, rydw i eisiau brecwast cyn brwsio'r dannedd. |

# Wedi bod

**wedi** = *have / has*

**wedi bod** = *have been / has been*

e.g. **Dw i wedi bwyta cinio.**
*I have eaten dinner.*

**Dw i wedi bod yn bwyta cinio.**
*I have **been** eating dinner.*

# Dweud beth mae pobl bod yn wneud

*Saying what people have been doing*

Beth mae hi wedi **bod** yn wneud?

Mae hi wedi **bod** yn chwarae tu allan.
Mae hi wedi **bod** yn canu yn y côr.
Mae hi wedi **bod** i'r siop.

Beth mae'r athrawon wedi **bod** yn wneud?

Mae'r athrawon wedi **bod** yn marcio.
Maen nhw wedi **bod** i gael cinio.
Mae athro Blwyddyn 2 wedi **bod** yn siopa.
Mae'r athrawes wedi **bod** yn rhedeg.

# Gofyn cwestiynau
*Asking questions*

Wyt ti wedi **bod** i'r tŷ bach?

Ydw.

Ydw, dw i wedi **bod** i'r tŷ bach.

Nac ydw.

Nac ydw, dw i **dd**im wedi **bod** i'r tŷ bach.

Ydych chi wedi **bod** i'r siop?

Ydyn, rydyn ni wedi **bod** i'r siop.

Nac ydyn, dydyn ni **dd**im wedi **bod** i'r siop.

Ydy e wedi **bod** yn **dd**a?

Ydy, mae e wedi **bod** yn **dd**a.

Nac ydy, dydy e **dd**im wedi **bod** yn **dd**a.

# **Ble mae Tedi wedi bod?** (Cynradd)

*(#She'll be coming round the mountain)*

**Ble mae tedi wedi bod? Wedi bod?**
**Ble mae tedi wedi bod? Wedi bod?**
**Ble mae tedi wedi bod?**
**Tedi wedi bod?**
**Ble mae tedi wedi bod? Wedi bod?**

1. **Mae e wedi bod i'r dre, i'r dre!**
2. **Mae e wedi bod i'r traeth, i'r traeth!**
3. **Mae e wedi bod i'r ysgol, i'r ysgol!**

# Sgwrs yn yr ysgol



| | |
|---|---|
| Athrawes: | Llun beth rwyt ti wedi **w**neud? |
| Joseff: | Rydw i wedi gwneud llun fy **nh**eulu. |
| Athrawes: | Da iawn, a llun beth mae Cai wedi **w**neud? |
| Joseff: | Mae e wedi gwneud llun ci. |
| Athrawes: | Beth mae Elis wedi bod yn **w**neud? |
| Joseff: | Mae e wedi bod yn chwarae pêl-droed. |
| Athrawes: | Wyt ti wedi bod yn chwarae pêl-droed hefyd? |
| Joseff: | Ydw, cyn cinio, Miss. |

# Gêm - Wyt ti wedi bod i ...?

**Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:**

1. Bydd angen disiau poced a chardiau fflach arnoch chi
2. Rhannwch y myfyrwyr i grwpiau o 4
3. Bydd angen dis a set o gardiau 'llefydd' ar bob grwp. Ar y dis bydd y rhagenwau – **ti, fe/**, **hi**, **ni**, **chi**, **nhw** (sleidiau i ddilyn)
4. Bydd angen rhoi'r cardiau (sleid 31) wyneb i waered ar y bwrdd.
5. Rhaid i fyfyrwyr daflu'r dis a chodi cerdyn.
6. Rhaid iddyn nhw ofyn gwestiwn i'r person ar y chwith,

e.e. **Wyt ti wedi bod i Gastell Caernarfon?**
**Ydy hi wedi bod i Sain Ffagan?**
**Ydyn nhw wedi bod i Fferm Folly?**



# Gêm - Wyt ti wedi bod i ...?



| | | |
|---|---|---|
| ti | fe | hi |
| ni | chi | nhw |

# Gêm - Wyt ti wedi bod i ...?




Fferm Folly



Canolfan Mileniwm



Sain Ffagan



Castell Caernarfon



Dan yr Ogof



Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**Ad-drefnwch y geiriau i wneud cwestiynau a brawddegau:**
*Re-arrange the words to make questions and sentences:*



1. ti wedi wyt wneud Beth ?
2. Beth wyt ti wedi wneud?
3. e dda wedi Ydy bod yn ?
4. Ydy e wedi bod yn dda?
5. stori i wedi yn Dw bod ysgrifennu .
6. Dw i wedi bod yn ysgrifennu stori.
7. chi tacluso Rydych wedi yn bod .
8. Rydych chi wedi bod yn tacluso.
9. y canu Blwyddyn yn neuadd yn Mae wedi Dau plant bod .
10. Mae plant Blwyddyn Dau wedi bod yn canu yn y neuadd.

# Atebion!



1. Beth wyt ti wedi wneud?
2. Ydy e wedi bod yn dda?
3. Dw i wedi bod yn ysgrifennu stori.
4. Rydych chi wedi bod yn tacluso.
5. Mae plant Blwyddyn Dau wedi bod yn canu yn y neuadd.

# Darllenwch y darn a thiciwch yr ateb cywir ar y sleid nesaf:

*Read the passage and tick the correct answer on the next slide:*



Rydw i wedi cael wythnos ardderchog yn yr ysgol yr wythnos hon.  Mae'r plant wedi bod yn **w**ych.  Maen nhw wedi gwrando'n ofalus ac maen nhw wedi dysgu llawer am **d**yfu blodau.

Rydyn ni wedi bod yn hau blodau haul a letys.  Maen nhw wedi egino yn barod.  Mae'r plant wedi mwynhau rhoi dŵr i'r planhigion.

Wythnos nesa, rydyn ni'n mynd i **f**esur blodau haul achos maen nhw'n tyfu'n **g**yflym iawn.

hau = *to sow (seeds)*

egino = *to germinate, to sprout*

# Ticiwch 'Cywir' neu 'Anghywir':

*Tick 'True' or 'False':*



| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| 1. Mae hi wedi bod yn wythnos dda yn yr ysgol. | | |
| 2. Dydy'r plant ddim wedi bod yn dda. | | |
| 3. Maen nhw wedi bod yn tyfu blodau yn yr ysgol. | | |
| 4. Dydy'r letys ddim wedi egino eto. | | |
| 5. Rydw i wedi rhoi dŵr i'r blodau bob dydd. | | |
| 6. Maen nhw wedi bod yn mesur y blodau haul. | | |
| 7. Mae'r letys wedi tyfu'n gyflym iawn. | | |

# Llenwch y bylchau:

*Fill in the gaps:*



| is / are | has / have | have been / has been |
|---|---|---|
| Ydy hi'n gweithio? | | |
| | Mae e wedi gwneud castell tywod. | |
| | | Dydw i ddim wedi bod yn marcio. |
| Maen nhw'n ysgrifennu. | | |



# Cadlongau! *Battleships!*



e.e. A: Ydy Nia wedi bod i Sbaen?

B: Ydy, mae Nia wedi bod i Sbaen. / Nac ydy, dydy Nia ddim wedi bod i Sbaen.

| Enw | Sbaen | Ffrainc | America | Awstralia |
|---|---|---|---|---|
| Nia | | | | |
| Sali | | | | |
| Tomos | | | | |
| Alys | | | | |

# Wyt ti wedi ..... erioed?!

*Have you ever .....?!*

…cwrdd â rhywun enwog?

…bod ar y teledu?

…rhedeg marathon?

…gweld UFO?

…bod yn Awstralia?

…gweld goleuadau’r gogledd?

# WEDI A WEDI BOD

## WEDI

*have/has* = *present tense* + **wedi**

*The present tense patterns (*rydw i, rwyt ti *etc.) are used but* **wedi** *is substituted for* **yn**.

*e.g.* **Rydw i'<u>n</u> chwarae.** = *I am playing/I play.*

**Rydw i <u>wedi</u> chwarae.** = *I <u>have</u> played.*

*had* = *imperfect tense* + **wedi**

*The imperfect tense patterns (*roeddwn i, roeddet ti *etc.) are used but* **wedi** *is substituted for* **yn**.

*e.g.* **Roeddwn i'<u>n</u> mwynhau.** = *I was enjoying.*

**Roeddwn i <u>wedi</u> mwynhau.** = *I <u>had</u> enjoyed.*

*will have* = *future tense* + **wedi**

*The future tense patterns are used but* **wedi** *is substituted for* **yn**,

*e.g.* **Byddi di'<u>n</u> gorffen.** = *You will be finishing.*

**Byddi di <u>wedi</u> gorffen.** = *You will have finished.*

## WEDI BOD

**have been/has been** = *present tense* + **wedi bod**

*e.g.* **Mae hi wedi bod** yn nofio.
*She has been swimming.*

**Dydy e ddim wedi bod** yn darllen.
*He hasn't been reading.*

**had been** = *imperfect tense* + **wedi bod**

*e.g.* **Roedd e wedi bod** yn trydar.
*He had been tweeting.*

**Oeddet ti wedi bod** yn blogio?
*Had you been blogging?*

**will have been** = *future tense* + **wedi bod**

*e.g.* **Byddan nhw wedi bod** i'r gampfa.
*They will have been to the gym.*

**Fyddan nhw wedi bod** i'r traeth?
*Will they have been to the beach?*




**Wedi** *and* **yn/'n** *never appear next to each other.*

Byddan nhw'n wedi bod yn canu. ✗

Byddan nhw wedi bod yn canu. ✓

# Munud i feddwl ...

**Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?**
*Which language acquisition techniques were used in this lecture?*


Drilio


Ymarfer ar lafar (yn unigol)


Gwaith pâr


Grŵp o dri


Tasg ysgrifennu


Gwaith ar y byrddau gwyn


Amser Canu


Gwaith Grŵp


Tasg ddarllen





# Da iawn chi!

DW I'N DYSGU CYMRAEG

# Daliwch ati!